**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**The National Assembly for Wales**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2001

### Y Cefndir

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) 1992 sy'n rheoli ar ba delerau y mae gwasanaethau deintyddol cyffredinol yn cael eu darparu o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977. Mae effaith y diwygiadau yn cael ei hesbonio yn y Nodyn Esboniadol.

Cafodd darpariaeth debyg ei gwneud ar gyfer Lloegr ar 4 Chwefror 2001 a daeth i rym ar 19 Mawrth 2001 (OS 2001/289).

### Rheol Sefydlog 11.5

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol i roi sylw arbennig iddynt.

### Sylwadau Cyffredinol

### Rheoliad 5

Awgrymir y buasai diwygio pob cyfeiriad at 'FHSA' yn gyffredinol (gan gynnwys diddymu'r diffiniad) wedi bod yn ddewis gwell na diwygio 'FHSA' ar gyfer Rheoliad 5 yn unig.

### Rheoliad 7(4)

Dylai fod coma yn hytrach nag atalnod llawn ar ddiwedd y paragraff (c) sy'n cael ei fewnosod.

**Diwygio'r atalnodi**

Mewn rhai achosion mae'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan y rheoliadau hyn yn cynnwys diwygio'r atalnodi yn unig. Fel rheol ni fernir bod angen ymdrin â materion o'r fath wrth wneud diwygiadau i offeryn statudol. Gellir gweld hyn drwy gymharu'r rheoliadau presennol â'r rheoliadau cyfatebol sydd wedi'u gwneud ar gyfer Lloegr.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

8 Mai 2001